

**Dr Andrew Goodall**  
Ysgrifennydd Parhaol  
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Gwyn Williams AS**  
[Gwyn.Williams-AS@senedd.cymru](mailto:Gwyn.Williams-AS@senedd.cymru)

14 Awst 2026

Annwyl Gwyn Williams,

Diolch am eich cwestiynau a gyflwynwyd ar 5 Awst 2026.

Fe wnaethoch ofyn pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog Cabinet wedi'i roi i ehangu nifer y staff gwasanaeth sifil sy'n gweithio yn Abertawe er mwyn dosbarthu gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn well o Gaerdydd i ail ddinas Cymru?

Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n gyfrifol am y penderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio a lleoli staff Llywodraeth Cymru, ac felly mae'r Gweinidog dros Effeithiolrwydd y Llywodraeth a'r Cyfansoddiad wedi gofyn imi ymateb.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei strategaeth leoli, ynghyd â sut mae rolau'r gwasanaeth sifil wedi eu dosbarthu ar draws Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddir ystyriaeth i sut y gall y sefydliad hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chyflawni amcanion polisi mewn modd effeithiol ar draws pob rhan o Gymru.

Bydd opsiynau ar gyfer y dyfodol yn cael eu hystyried, a bydd Gweinidogion yn cyfranogi yn y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo.

*Yn gywir,*

*Andrew Goodall*

**Dr Andrew Goodall**  
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary  
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 6935  
PS.PermanentSecretary@gov.wales  
Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut y byddwn yn trin ac yn defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. <https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru>